OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3132 (Cy.299)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir) 2003

Wedi'i wneud - - 28 Tachwedd 2003

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llwyodraeth Leol Cymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Ebrill 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ar adolygiad a gyflawnwyd gan Gyngor Sir Powys ar y ffiniau rhwng cymunedau Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir yn Sir Powys ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdanynt;

a chan bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hyn;

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir) 2003.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004 sef y diwrnod penodedig ("appointed day") at ddibenion y Rheoliadau, ond at y dibenion a nodir yn Rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "map ffiniau A" ("*boundary map A*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map A Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

(**1**) 1972 (p.70).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

ystyr "map ffiniau B" ("*boundary map B*") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map B Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwm-hir) 2003" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "Powys" ("*Powys*") yw Sir Powys; ac

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**).

Newidiadau i Ardaloedd Cymunedau

3.—(1) Caiff y rhan o gymuned Llanbister sydd ym Mhowys ac a ddangosir â llinellau du ar fap ffiniau A ei gwahanu oddi wrth y gymuned honno a bydd yn ffurfio rhan o gymuned Llanbadarn Fynydd ym Mhowys.

(2) Caiff y rhan o Bowys sydd yng nghymuned Abaty Cwm-hir ac a ddangosir â llinellau du ar fap ffiniau B ei gwahanu oddi wrth y gymuned honno a bydd yn ffurfio rhan o gymuned Llanbadarn Fynydd ym Mhowys.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sue Essex
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

28 Tachwedd 2003

(**3**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan amryw offerynnau statudol. Nid yw'r diwygiadau hynny yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn.